

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2018**

**The A483 Trunk Road (Ffairfach,
Carmarthenshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2018**

Gwnaed 8 Hydref 2018

Made 8 October 2018

Yn dod i rym 14 Hydref 2018

Coming into force 14 October 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A483 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 14 Hydref 2018.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Ffairfach, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 14 October 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 14 Hydref 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A483 Swansea to Manchester Trunk Road;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 07:00 hours on 14 October 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwysio

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

8 Hydref 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Cennen, Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o groesfan rheilffordd Ffair-fach i'w chyffordd â mân gylchfan Ffair-fach.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Teras Tywi, Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd â mân gylchfan Ffair-fach i Bont Llandeilo.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

8 October 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the trunk road known as Heol Cennen, Ffairfach, Carmarthenshire that extends from a point 20 metres north of Ffairfach level crossing to its junction with Ffairfach mini roundabout.

The length of the trunk road known as Towy Terrace, Ffairfach, Carmarthenshire that extends from its junction with Ffairfach mini roundabout to Llandeilo Bridge.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(FFAIR-FACH, SIR GAERFYRDDIN)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o'r A483 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym ar 14 Hydref 2018 a bydd yn weithredol ar ddyddiau Sul yn unig (07:00 – 19:00) tan 27 Ionawr 2019. Ni chaiff y gwaith ei wneud ar 28 Hydref, 4 a 11 Tachwedd na 23 a 30 Rhagfyr 2018.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN
Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn o gefnffordd yr A483 o'r enw Heol Cennen, Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o groesfan rheilffordd Ffair-fach i'w chyffordd â mân gylchfan Ffair-fach.

**THE A483 TRUNK ROAD (FFAIRFACH,
CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Ffairfach, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A483 described in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, is expected to come into force on 14 October 2018 and operate on Sundays only (07:00 – 19:00) until 27 January 2019. Works will not be undertaken on 28 October, 4 & 11 November and 23 & 30 December 2018.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULE
Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes

1. The length of the A483 trunk road known as Heol Cennen, Ffairfach, Carmarthenshire that extends from a point 20 metres north of Ffairfach level crossing to its junction with Ffairfach mini roundabout.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd tua'r de ar yr A483 i Gylchfan Pont Abraham, mynd tua'r gogledd ar yr A48 i Gylchfan Cross Hands a mynd tua'r gogledd-ddwyrain ar yr A476 i ailymuno â'r A483 yn Ffair-fach: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

2. Y darn o gefnffordd yr A483 o'r enw Teras Tywi, Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd â mân gylchfan Ffair-fach i Bont Llandeilo.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A476 tua'r de-orllewin i Cross Hands, mynd ar yr A48 tua'r gogledd-orllewin i Gylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin a mynd ar yr A40 tua'r dwyrain i Llandeilo: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

The alternative route for northbound vehicles is via the southbound A483 to Pont Abraham Roundabout, northbound A48 to Cross Hands Roundabout and north-eastbound A476 to re-join the A483 at Ffairfach: vice versa for southbound vehicles.

2. The length of the A483 trunk road known as Towy Terrace, Ffairfach, Carmarthenshire that extends from its junction with Ffairfach mini roundabout to Llandeilo Bridge.

The alternative route for northbound vehicles is via the south-westbound A476 to Cross Hands, north-westbound A48 to Pensarn Roundabout, Carmarthen and eastbound A40 to Llandeilo: vice versa for southbound vehicles.